# Ar dir diogel

Helo 'na, Rhona sydd yma, a gesiwch beth? Dw i'n mynd i Japan.

Mae Japan wedi gorfod ymdopi â pheryglon tectonig, neu mewn geiriau eraill, echdoriadau folcanig, daeargrynfeydd a tsunami.

Mae Japan yn wlad incwm uchel, gyda safon byw uchel ac economi gref. Mae'n gallu fforddio buddsoddi mewn technoleg a chynllunio i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â pheryglon tectonig.

Dw i'n mynd i Tokyo, dinas â phoblogaeth o dros 13 miliwn, i weld sut mae nhw'n ymdopi gyda daeargrynfeydd. Mae Japan yn buddsoddi llawer mewn addysg, adeiladau sy'n gallu gwrthsefyll daeargrynfeydd, a chynlluniau trychineb. Felly, os bydd daeargryn, byddai difrod strwythurol a marwolaethau'n isel.

Mae rhaglenni addysgiadol yn yr ysgol a'r gwaith gyda llyfrynnau fel hwn, yn dangos sut i gadw'n saff yn ystod daeargryn. Mae arweiniad ar bopeth - o gyngor meddygol, i sut i ymadael o'ch tŷ yn ddiogel.

Mae timau argyfwng yn cael hyfforddiant arbennig, a'r adeiladau wedi eu codi, gan ystyried y daeargrynfeydd. Mae sioc laddwyr yn yr adeilad yma, sy'n amsugno'r tonnau seismig, ac mae'r pwysau ar y to yn gwrthbwyso'r ysgwyd.

Mae gwlad incwm uchel fel Japan yn gallu buddsoddi lot o arian i leihau'r peryglon sy'n gysylltiedig â daeargrynfeydd. Ond nid pob gwlad sy'n gallu.

Reit, ble o'n i? O ie. Gall gwledydd incwm uchel fel Japan fforddio'r strategaethau sy'n eu helpu i ymdopi ag effeithiau daeargrynfeydd, ond beth am wledydd incwm isel gyda safon byw llawer is, a llai o arian i wario ar addysg, hyfforddiant gwasanaethau brys ac adeiladau sy'n gwrthsefyll daeargrynfeydd?

Achosodd y daeargryn yn Haiti yn 2010 werth 14 biliwn o ddoleri o ddifrod. Fel gwlad incwm isel, doedd gyda Haiti ddim o'r dechnoleg adeiladu, na'r hyfforddiant ar gyfer gwasanaethau brys, fel sydd gyda gwlad gyfoethog fel Japan.

Hyd yn oed nawr, mae mudiadau fel y Groes Goch yn rhoi cymorth tra bod gwasanaethau hanfodol fel systemau draenio'n cael eu trwsio.

Rydyn ni mor lwcus ein bod ni'n byw mewn gwlad heb beryglon tectonig, lle mae cael cyflenwad dŵr cyson a thir dan ein traed yn cael eu cymryd yn ganiataol.


© Copyright BBC